

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Jonathan Cawley

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E-bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: Dydd Mercher 04 Chwefror 2026

Amser: 10.00 y.b.

Man Cyfarfod: Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod
15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,
Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,
Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,
Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones,
Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.*



R H A G L E N

Rhif
Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
2. **Diweddariad Corfforaethol** 4 - 10
Cyflwyno diweddariad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)
3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrsasau'r Parc. Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.
4. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog.
5. **Cofnodion** 11 - 20
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir. (Copi yma)
6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**
7. **Taflen Weithredu** 21 - 22
Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
8. **Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol am 2026/2027** 23 - 33
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
9. **Strategaeth Cyfalaf 2026/2027** 34 - 39
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
10. **Cynllun Grant CANI (Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig)** 40 - 41
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (Copi yma)
11. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** 42 - 47
Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025. (Copi yma)
12. **Cofnodion y Cyd-weithgor Lleol** 48 - 50
Cyflwyno cofnodion y Cyd-weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025. (Copi yma)

13. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	4 Chwefror 2026
TEITL	Diweddariad Corfforaethol
ADRODDIAD GAN	Prif Weithredwr
PWRPAS	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw faterion allweddol sydd wedi codi ers y cyfarfod diwethaf

1. CYFLWYNIAD

- Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad byr ar rai o'r materion allweddol sydd wedi codi ers ein cyfarfod diwethaf. Gwneir hyn fel arfer ar lafar ond byddaf yn ymdrechu i gyflwyno gwybodaeth ar ffurf adroddiad pan fydd yn fuddiol gwneud hynny a bydd yn rhoi cyfle i'r Aelodau ei ddarllen a'i adolygu cyn y cyfarfod.

3. MATERION CENEDLAETHOL:

4. Dyraniadau'r Gyllideb 2026-27:

- Rydym wedi derbyn newyddion cadarnhaol am ddyraniad y gyllideb ar gyfer 2026-27. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig (YCDNHMG) bellach wedi cytuno ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y gangen Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad.
- Gallaf felly gadarnhau, yn ddarostyngedig i gyllideb derfynol y Senedd (y disgwylir iddi ddechrau mis Ionawr), y bydd yr Awdurdod hwn yn derbyn y canlynol:

Dyraniad 2025-26	Cynyddiad 2026-27	% cynyddiad	Dyraniad 2026-27
4,325,806	173,194	4%	4,499,000

- Yn ogystal, mae'r YCDNHMG wedi cytuno ar ddyraniadau cyfalaf. O ran 2025-26, bydd yr Awdurdod yn derbyn grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, Tirwedd, Natur a Charbon, a dyraniad cyfalaf cyffredinol. Bydd y dyraniadau cyfalaf fel a ganlyn:

Y Math o Gyfalaf	2025-26	2026-27
Grant Tirwedd, Natur a Charbon TCLIC	500,000	500,000
Cyfalaf cyffredinol	330,000	330,000
Cyfanswm cyfalaf	830,000	830,000

8. Yn ogystal, bydd Cronfa Gydweithredol TCLIC yn cael ei rhedeg drwy gyfrwng Tirweddau Cymru.
9. Yn olaf, bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn dyraniad ar gyfer cynllun Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig (fel yr ydym wedi'i gynghori o'r blaen), a bydd hyn fel a ganlyn:

Cyllid Cyfalaf 26-27 - TGC	Cyllid Refeniw 26- 27 - TGC (Taliadau Gwledig Cymru)	Hwyluso, hyfforddiant ac Aseidiadau 26-27	Capasiti Sefydliadol 26-27 - Aseidiad Capasiti Logisteg Digidol (ACLD)	Cyfanswm
£709,847	£113,000	£36,145	£6,570	£865,562

10. Hoffwn fynegi fy niolch i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei gefnogaeth barhaus i'r tirweddau dynodedig, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd wedi ein cefnogi mewn unrhyw drafodaethau cyllidebol. Bydd adroddiad mwy manwl ar wahân yn cael ei ddarparu gan y Pennaeth Cyllid ar y goblygiadau cyllidebol llawn.
11. **Tirweddau Cymru Landscape Wales (TCLW) - Grŵp Tasg a Gorffen Annibynnol ar wella effeithlonrwydd a moderneiddio cyrff Tirweddau Dynodedig:**
12. Mae TCLW wedi dechrau'r adolygiad uchod yn ddiweddar. Gyda'r etholiad Senedd sydd ar ddod, Parc Cenedlaethol newydd posibl ar y gorwel, a newidiadau i ddyletswyddau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol yn Lloegr, penderfynodd TCLW y byddai nawr yn amser priodol i adolygu effeithiolrwydd cyrff Tirweddau Dynodedig yng Nghymru. Yn dilyn cyfnod Mynegi Diddordeb, sefydlwyd aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen annibynnol canlynol o 5:
 - a. Howard Davies (Cadeirydd): Cyn Brif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Cadeirydd y Grŵp Bioamrywiaeth Tirweddau Dynodedig. Cadeirydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, cyn aelod o fwrdd CNC.
 - b. Llinos Anwyl – (Cyd-gadeirydd): Ymchwilydd creadigol, awdur a threfnydd wedi'i leoli yn Aberystwyth. Mae'i gwaith yn eistedd ar groesffordd diwylliant, amgylchedd ac iaith.
 - c. Colleen Cluett / Helen Nelson (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)
 - d. Dr Victoria Jenkins: Athro Cyswllt yn Ysgol y Gyfraith Hilary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe
 - e. Soraya Abdel-Hadi: Gweithiwr proffesiynol cynaliadwyedd, awdur, hyfforddwr, siaradwr a hwylusydd, Storïwr Cynaliadwy Lonely Planet 2021
13. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael y dasg i ddechrau o greu set o egwyddorion / gwerthoedd arweiniol sy'n nodi diffiniad o sut olwg sydd ar 'da' ar gyfer rheoli Tirwedd Dynodedig fodern Cymru. Bydd yr egwyddorion hyn yn helpu i fframio argymhellion a chwmpas y Cylch Gorchwyl.
14. **Gwella Llywodraethu ac Atebolrwydd Aelodau ym Mharciau Cenedlaethol Cymru**
15. Mae'r gwaith uchod wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argymhelliad Archwilio Cymru a gynhwysir yn eu hadroddiad ym mis Ebrill 2024 'Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol'. Roedd yr argymhelliad fel a ganlyn: "Er mwyn darparu sicrwydd ar gyfraniad aelodau at lywodraethu APCau, ac i helpu i lywio darpariaeth hyfforddiant a datblygu yn y dyfodol, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol cyfansoddol yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer pob aelod o APCau".

16. Rwyf wedi derbyn adroddiadau drafft sy'n ymwneud â'r gwaith hwn y mis hwn (Ionawr 2026), a byddwn i, Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod yn cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn y mis. Byddwn yn cyflwyno'r gwaith sy'n dod i'r amlwg unwaith y bydd wedi datblygu'n ddigonol gan LIC.
- 17. Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr – diweddariad**
18. Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig uchod, mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cytuno i wneud Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr – a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus pellach. Mae CNC yn cadarnhau bod y Gorchymyn hwn wedi'i wneud yn seiliedig ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r profion statudol a'r meini prawf ar gyfer dynodi, tra'n cydnabod yr ystod o adborth, cefnogaeth a phryderon, gan gynnwys gwrthwynebiadau gan awdurdodau lleol fel ymgynghoreion statudol yn ystod yr ymgynghoriad.
19. Bydd y cyfnod Hysbysiad Cyhoeddus yn dechrau ar 16 Ionawr 2026 tan 15 Chwefror 2026, gan roi cyfle pellach i bobl ymateb i'r cynnig yn ffurfiol. Byddaf yn asesu hyn i benderfynu a ddylai'r Awdurdod hwn fod yn ymateb i'r Gorchymyn Dynodi.
- 20. Partneriaethau Parciau Cenedlaethol (PPC) – Diweddariad**
21. Yn dilyn proses recriwtio helaeth, mae'r PPC wedi penodi Cat Hawkins fel eu Prif Weithredwr (roedd Cat yn Brif Weithredwr dros dro yn flaenorol) ac mae hi bellach wedi dechrau yn ei rôl.
22. Mae'r Uned Cyfathrebu Ganolog ar gyfer Parciau Cenedlaethol y DU bellach yn cael ei rheoli gan Bartneriaeth y Parciau Cenedlaethol, a'r mis diwethaf penodwyd Natalie Harvey fel eu Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand. Bydd hi'n dechrau ei swydd ar 23 Chwefror.
23. Mae PPC wedi bod yn arwain ar brosiect cynnig brand a negeseuon Parciau Cenedlaethol y DU, gan weithio gyda'r asiantaeth Outside of Ordinary - ac mae pob un o'r 15 Parc Cenedlaethol wedi cyfrannu at y gwaith hwn. Mae'r gwaith bellach yn cael ei brofi'n gyhoeddus cyn ei gyflwyno'n genedlaethol.
24. Mae Atodiad 1 yn crynhoi Adroddiad Blynyddol PPC ac yn amlinellu rhai o'r partneriaethau masnachol a'r nawdd a ddatblygwyd gan PPC yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2024-25).
- 25. MATERION LLEOL:**
- 26. Recriwtio Staff**
27. Ers ein cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr, mae'r Awdurdod wedi penodi Uwch Swyddog Cyllid newydd (Becky Anderson) a ddechreuodd y mis hwn, ynghyd ac Uwch Swyddog Cynllunio newydd (Dafydd Thomas), sy'n dechrau ar 9 Chwefror. Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio bod Dafydd gyda ni o'r blaen, ac rydym yn falch iawn o'i groesawu yn ôl i Eryri.
28. Rydym hefyd yn hysbysebu 2 swydd newydd Ffermio Bro ar hyn o bryd (1 llawn amser ac 1 rhan-amser).
- 29. Archwilio Cymru:**
30. Mae Archwilio Cymru yn parhau â'u hadolygiad ehangach parhaus o drefniadau sylweddol yr Awdurdod i sicrhau gwerth am arian (maent yn cynnal adolygiadau tebyg ar draws pob Cyngor yng Nghymru). Cafodd y Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd) a'r Cynghorydd Elfed Roberts gyfarfodydd â swyddogion Archwilio Cymru'r mis hwn (Ionawr), ynghyd â fi a swyddogion eraill yr Awdurdod. Byddwn yn adrodd yn ôl ar unrhyw ganfyddiadau maes o law.

31. Cynllun Eryri / Datganiad ac Amcanion Lles

32. Mae cynllun statudol yr Awdurdod, Cynllun Eryri, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae Angela Jones, y Rheolwr Partneriaethau wedi trefnu'r rownd derfynol mewn cyfres o 'Symposia' yn ddiweddarach y mis hwn (Ionawr) ar 'Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant yn Eryri' a fydd yn bwydo i mewn i Gynllun Eryri. Bydd yr aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn da bryd.
33. Bydd Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod (y ddau ohonynt yn ofyniad statudol sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) ar gyfer y cyfnod 2027-32 yn cael eu hintegreiddio i Gynllun Eryri – felly fformat ychydig yn newydd ar gyfer y rhain y tro hwn. Unwaith eto, byddwn yn adrodd yn fwy manwl ar hyn maes o law.

34. CDLI Eryri

35. Y cam allweddol nesaf yn y broses o gynhyrchu'r CDLI fydd yr Alwad am Safleoedd a bydd Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar hyn maes o law. Bydd y tîm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd maes o law.

36. Plas Tan y Bwlch

37. Bydd yr aelodau wedi cael diweddariad llafar ar brosiect Loteri Plas Tan y Bwlch a byddant yn ymwybodol y bydd y cais yn cael ei gyflwyno erbyn dyddiad cau mis Mai y Loteri yn hytrach na'r dyddiad cau mis Ionawr a osodwyd gennym yn wreiddiol. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda gan y tîm dylunio dan arweiniad Donald Insall Associates, gyda'r Cyfarwyddwr Rheoli Tir yn rheoli'r prosiect ar gyfer yr Awdurdod. Edrychwn ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ym mis Mawrth – a bydd sesiwn galw heibio i staff yn dilyn hyn.
38. Er gwybodaeth, mae gweithwyr contract gorsaf bŵer Tanygrisiau bellach wedi symud ymlaen ac nid ydynt bellach yn aros yn y Plas – daeth hyn ag incwm i'r Awdurdod yn ystod 2025. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer yr adeilad yn ystod y cyfnod pontio hwn.

39. Canolfan Groeso Betws-y-coed

40. Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol bod Donald Insall Associates yn arwain y gwaith dylunio ar sefydlu cynllun yn y dyfodol a gwelliannau posibl i'r adeilad uchod. Mae hwn yn cael ei ystyried yn brosiect tymor canolig (prosiect 3-5 mlynedd) a byddai'n ddarostyngedig i gael cyllid, sy'n heriol ar hyn o bryd. Unwaith y cyrhaeddir y cam dyluniad drafft a ffefrir, bydd swyddogion yn rhannu hyn gyda'r Aelodau - mae hyn yn debygol o fod yn ystod Gwanwyn 2026. Yna bydd yn ymgynghori â'r tenantiaid presennol a'r gymuned ehangach os yw'n bosibl bwrw ymlaen â'r prosiect.

41. Ffermio Bro

42. Yn dilyn llwyddiant blwyddyn gyntaf cynllun Ffermio Bro, rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymadau ariannol pellach i'r cynllun, ac felly bydd y tîm yn cael ei ehangu ymhellach eleni. Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Ffermio Bro ar 24 Chwefror.

43. Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

44. Daeth Partneriaeth Tirwedd y Carneddau i ben ym mis Rhagfyr 2025 ar ôl 5 mlynedd lwyddiannus. Yr her allweddol nawr fydd adeiladu etifeddiaeth barhaol i'r Carneddau ac adeiladu ar y partneriaethau a'r prosiectau sydd wedi'u ffurfio dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd adroddiad sy'n crynhoi prosiect Carneddau yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y Gweithgor ym mis Mawrth.

45. Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE

46. Mae gan y prosiect hwn ychydig dros flwyddyn yn weddill, a chynhelir Cynhadledd ar y prosiect ym Mhrifysgol Bangor ar 13 Ebrill. Bydd adroddiadau diweddarau pellach ar y prosiect yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau maes o law.

47. Prosiectau Eraill

48. Mae nifer o brosiectau strategol cyffrous eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau i'w trafod yn ystod yr wythnosau nesaf.

49. Pen-blwydd Eryri yn 75 oed

50. Mae aelodau wedi cael diweddariad ar y garreg filltir arwyddocaol hon o'r blaen. Mae'r paratodau'n parhau ar gyfer digwyddiad yn y DU a fydd yn cynnwys y 4 Parc Cenedlaethol sy'n 75 oed ym mis Gorffennaf, ynghyd â digwyddiadau lleol yn Eryri – i'r cyhoedd ac ar gyfer staff / Aelodau. Mae llyfr i ddathlu Eryri hefyd wedi'i gomisiynu ac rydym yn gobeithio y bydd hwn yn barod ar gyfer yr Haf. Rhagwelir hefyd y gall y trefniant gefeillio gyda Pharc Cenedlaethol Los Alerces ym Mhatagonia ddigwydd yn ystod y flwyddyn. Byddaf yn ymdrechu i roi diweddariad i'r Aelodau wrth i hyn fynd rhagddo.

51. Argymhelliad

52. I'r Aelodau nodi'r adroddiad diweddarau ar faterion strategol ers ein cyfarfod diwethaf a chodi unrhyw gwestiynau neu faterion perthnasol.

Atodiad 1: Adroddiad Blynyddol PPC – Crynodeb

NPP 2024-25 Year Highlights

It has been another busy year for National Parks Partnerships, delivering tangible benefits to the UK National Parks and what they offer. Here is a summary of some of the highlights.

For more information, see our [2024-2025 Annual Report](#).

Capital

- Turnover increased to £1.7 million, reflecting income from the Defra grant and £811,000 in secured partnership revenues. Of this, £588,000 in partnership revenue was redistributed to National Park Authorities (NPAs) as grants.
- New partnerships included:
 - Vodafone: a collaboration to harness AI and digital innovation in support of biodiversity, connectivity, and sustainable landscapes.
 - Pearl & Dean: showcasing nature restoration in National Parks in cinemas through a series of short films called 'Wild Spaces', which have been shown to 13,723,421 cinemagoers.
 - Howdens: a two-year partnership to support nature recovery and biodiversity restoration across the National Parks.
- Highlights of pre-existing collaborations included:
 - BMW UK: The Recharge in Nature collaboration with BMW UK delivered nearly £1 million of investment in biodiversity and community projects. 93 EV charge sockets have been installed across eight National Parks.
 - Santander UK: As part of an ongoing partnership, Santander UK supported Grubs Up! in the North York Moors National Park.



- Existing partnerships with Forest Holidays, Sykes, Palladium, and licensing partners such as Bonnier Publishing, Harper Collins, and Fat Face all continued.
- The UK National Parks Foundation reported total income of £192,000, which included a £95,000 grant to support tree planting and green skills. Ongoing funding from Estée Lauder Companies UK & Ireland enabled Loch Lomond & The Trossachs National Park to develop a comprehensive invasive species monitoring programme.

Collaborations

- NPP continued delivery of the Defra-funded Green Finance Accelerator, running knowledge-sharing sessions across Protected Landscapes to help mobilise private finance for nature.
- Through the Revere collaboration with Palladium, NPP secured a framework agreement with National Grid to deliver climate and nature-based solutions over the next three years.
- Working with all National Parks, NPP developed a pipeline of more than 70 nature restoration projects with a combined funding requirement of £42.4 million, informing discussions with a range of funders, including new partner Vodafone UK.
- Regular meetings of the Landscape Recovery Knowledge Sharing Group supported collaboration, while a new Fundraising Officers Advisory Group was created to encourage peer-to-peer learning and professional networking.
- NPP delivered training and workshops nationwide, including sessions on Biodiversity Net Gain (BNG) with South Downs National Park Authority and landowner engagement workshops in Northumberland and Loch Lomond & The Trossachs.
- Close collaboration continued with National Parks England (NPE), the National Landscapes Association (NLA), and National Trails through the Protected Landscapes Partnership (PLP) and Generation Green programme.



Communications

- NPP launched two national campaigns to attract corporate partners: Active Partnerships and Green Futures. Together, they reached 2,395 businesses.
- NPP presented at major environmental events including the Net Zero Festival, Nature Finance UK, and Climate Action Week.
- A new corporate partnerships and green finance website and CRM system were launched to support business engagement.
- The newly-launched Green Thread newsletter attracted nearly 1,000 subscribers.
- The Big Ideas Forum in October 2024 welcomed US National Parks colleagues to share insights on philanthropy and storytelling.
- NPP led work on the UK National Parks brand proposition and messaging project, aimed at creating a consistent and unified voice across all National Parks (ongoing).



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 10 RHAGFYR 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamat Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweeney, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Edward Jones, Rhys Owen, Nia Murray, Eifion Jones.

Hefyd yn bresennol:

Matthew Edwards (Archwilio Cymru), Dan Price (Archwilio Cymru)

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Adroddodd y Cadeirydd:

- ei fod wedi mynychu'r Cyfarfod Staff a gynhaliwyd ym Mhlas Tan y Bwlch a'i fod yn gyfarfod da;
- ei fod ef ag Aelodau eraill wedi ymweld â thai Grŵp Cynefin yn Harlech ac fe gafwyd trafodaeth am eu gwaith yn y Plas;
- y cynhaliwyd Seminar Aelodau Cymru ym Metws-y-coed ym mis Hydref.

2. Diweddariad Corfforaethol

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- y byddai'n cyflwyno diweddariadau corfforaethol fel adroddiadau ysgrifenedig o gyfarfod nesaf yr Awdurdod ymlaen;
- bod y Seminar Aelodau Cymru a gynhaliwyd ym Metws-y-coed wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i bawb a gyfrannodd at ei lwyddiant;
- bod Cynllun Loteri Partneriaeth y Carneddau bellach wedi dod i ben a byddai

digwyddiad i ddathlu'r cynllun yn cael ei gynnal ym mis Mawrth. Roedd yn drist ei fod yn dod i ben ond fe fyddai'n sicr yn gadael gwaddol cadarnhaol;

- bod y paratodau tuag at ddathliadau'r Parc yn 75 yn parhau a bod y pedwar parc oedd yn dathlu (sef Eryri, Ardal y Llynnoedd, Peak District a Dartmoor) wedi comisiynu adroddiad ar hanes a dyfodol y 4 Parc ar y cyd a bod diweddariad i ddod;
- cafwyd Cyfarfod Staff gwerthfawr a rhoddodd aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth gyflwyniad o'u gweledigaeth am eu gwaith i'r staff;
- bod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru'n parhau mewn sawl maes, gan gynnwys llywodraethu (byddai diweddariad ar hyn yn dod yn eithaf buan), arolwg ar flwyddyn gyntaf Ffermio Bro, ac ynglŷn â'r gyllideb;
- bod prosiect cais loteri Plas Tan y Bwlch yn parhau, ac mai'r bwriad o hyd oedd cyflwyno'r cais fis Chwefror, ond bod posibilrwydd ei gyflwyno ym mis Mai os oedd rhaid;
- byddai Cwmni Egin, a gafodd ei sefydlu yn Nhrawsfynydd ar gyfer y posibilrwydd o gael *Small Modular Reactor* (SMR) yno, yn dod i ben fis Mawrth am nad oedd Trawsfynydd ar y rhestr fer i gael SMR bellach. Roedd y PW wedi cytuno cael cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Cwmni Egin i drafod y sefyllfa a'r goblygiadau ymhellach;
- bod y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, sy'n cael nawdd i barciau cenedlaethol Prydain, wedi dod i gytundeb gyda Helly Hansen iddynt ddarparu dillad i'r parciau.

Nodwyd:

- bod gwir bryder y byddai'r arian a glustnodwyd i Feirionnydd ar gyfer yr SMR (tua £40 miliwn) yn cael ei golli gan nad oedd y cynllun yn mynd yn ei flaen, bod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn gefnogol o'r dyhead i greu Parc Gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd a allai denu cyflogaeth o safon uchel, ac y byddai hyn yn cael ei drafod gyda rheolwyr y cwmni i weld beth oedd y goblygiadau a'r camau nesaf i'r safle;
- yn dilyn datganiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â chynnydd o 4% yn y cyllid i gynghorau, nad oedd yn eglur eto a oedd hynny i gynghorau sir yn unig, neu a oedd yn cynnwys y parciau cenedlaethol hefyd.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- na chafwyd cyfle hyd yma i gasglu'r ffigyrau ar gyfer eitem 13 ar y daflen (Y Prif

Weithredwr i gyflwyno ffigyrau ar “Faint llai o arian mae'r Awdurdod wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru yn y deg mlynedd diwethaf?”) ond fe fyddant yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol agos;

- parthed Eitem 18 ar y daflen, bod y Llywodraeth newydd yrru adroddiad drafft ar lywodraethu ac y byddai adroddiad yn dod gerbron yr Awdurdod ar ôl ystyried y ddogfen, ac felly
- dylai'r ddwy eitem aros ar y daflen;

Argymhellwyd: cadw'r ddwy eitem ar y Daflen.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. Cynrychiolaeth APCE ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod y Cynghorydd Elfed Powell Roberts wedi ei ethol yn gynrychiolydd Awdurdod Parc Eryri ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yr Awdurdod ym mis Mehefin;
- bod y Cynghorydd, fodd bynnag, eisoes yn aelod o'r Grŵp fel Cynghorydd Sir ar ardal Trawsfynydd;
- ei fod felly, wedi penderfynu ymddiswyddo fel cynrychiolydd yr Awdurdod i roi cyfle i Aelod arall i fynychu cyfarfod nesaf y grŵp (a oedd i'w gynnal diwrnod ar ôl y cyfarfod yma);

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Delyth Lloyd yn cynrychioli APCE ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd.

Cafwyd pleidlais ac **etholwyd** Delyth Lloyd fel cynrychiolydd yr Awdurdod ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd.

9. Cynllun Archwilio Ariannol 23-24

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Archwilio, Archwilio Cymru (AC).

Adroddwyd:

- bod y cynllun archwilio'n gosod allan y wybodaeth oedd yn rhaid ei rhannu o ran y safonau archwilio rhyngwladol;
- bod y cynllun yn cyfeirio at archwiliad cyfrifon 23-24 oherwydd yr oedi a fu yn amserlen yr Awdurdod i baratoi cyfrifon ers Covid;
- bod gwaith archwilio perfformiad y cynllun yn cyfeirio at y flwyddyn 25-26;
- bod tipyn o wahaniaeth rhwng y blyneddodedd yma, ond mai'r bwriad oedd archwilio cyfrifon 24-25 a 25-26 o fewn y deunaw mis nesaf i ddal i fyny;
- byddai AC yn rhoi adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliad yn y flwyddyn newydd.

Nodwyd:

- bod rheol statudol y dylai cyfrifon gael eu cwblhau o fewn misoedd i ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond nad dyna oedd y sefyllfa gyda'r Awdurdod;
- bod amserlen Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod anelu at gwblhau cyfrifon 24-25 erbyn diwedd mis Hydref y flwyddyn nesaf (2026) a chyfrifon 25-26 erbyn y mis Medi canlynol (2027);
- bod yr amserlen yn un heriol i'r Awdurdod, ac y byddai i unrhyw gorff:-
 - roedd nifer o gyrff cyhoeddus eraill yn yr un sefyllfa

- roedd yr un faint o waith gan yr Awdurdod i baratoi'r cyfrifon ag oedd i gynghorau sir, ond bod lefelau staffio'r Awdurdod dipyn yn llai na lefelau staffio cynghorau sir;
- bod yr adran gyllid wedi gweithio gyda chwmni allanol er mwyn dal i fyny â'r amserlen;
- byddai diweddariad ar yr amserlen a'r llwyddiant o gadw ati'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i gael cadw golwg ar ddatblygiadau.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi unrhyw adborth ar y broses.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

10. Cofrestr Risg yr Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- trosolwg o'r Risgiau ar y Gofrestr a'r newidiadau a fu ynddynt dros y flwyddyn ddiwethaf;
- bod 20 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr – 4 wedi'u dosbarthu fel risgiau Uchel, 12 fel risgiau Canolig a 4 fel risgiau Isel;
- bod dau risg newydd wedi eu hychwanegu at y gofrestr:
 - Risg 2: Plas Tan y Bwlch – risg enw da ac ariannol (Risg Uchel)
 - Risg 20: Methu cydymffurfio gyda gofynion statudol strwythurau ac isadeiledd (Risg Uchel)
- bod y Gofrestr yn cynnig dileu 3 Risg, sef:
 - Risg 13: Cynhyrchu Incwm Cynllunio,
 - Risg 14: Cyfarwyddyd Erthygl 4 â'r risg o her gyfreithiol ar yr Awdurdod drwy Adolygiad Barnwrol,
 - Risg 15: Capasiti staff annigonol oherwydd cynnydd posibl yn y llwyth gwaith drwy gynyddu ceisiadau cynllunio yn dilyn Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Nodwyd:

- dylid cynnwys (i) Etholiadau Senedd Mai 2026 a (ii) Pedwerydd Parc Cenedlaethol Cymru arfaethedig at y Gofrestr fel Risgiau i'r Awdurdod;
- bod rhai risgiau cynhenid ar y Gofrestr (e.e. Risg 6) wedi derbyn llawer o sylw a gwaith ond nad oedd sgôr y gweddill risg wedi disgyn ac nad oedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf yn gywir; adroddwyd bod y Tîm Arweinyddiaeth bellach yn mynd trwy'r Gofrestr Risg yn fisol, a byddant yn talu sylw i hyn;
- nad oedd manylion Risg 20 (Methu cydymffurfio â gofynion statudol strwythurau ac isadeiledd) wedi eu disgrifio'n eglur. Esboniwyd bod isadeiledd ar draws y Parc bellach dan bwysau gan nad oedd tanciau septig yn addas i'r nifer o ymwelwyr a gaed, bod sawl safle o dan archwiliad, bod llythyrau rhybudd wedi'u derbyn am fwy nag un lle, bod cronfeydd dŵr yn flaenoriaeth a bod gweithred cwblhau gwaith ar Lyn Mair erbyn Gorffennaf 2026, bod y risgiau'n uchel i enw da'r Awdurdod ac i'r amgylchedd;
- mewn ymateb i gwestiwn ar Risg 20 – a oedd digon o gyllid i ddelio gyda'r risg – esboniwyd mai mater caniatâd ydoedd yn y bôn ac nid mater cyllideb, bod ceisiadau caniatâd a cheisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno ers amser ond bod gwrthwynebiadau wedi eu codi;
- bod hyn yn flaenoriaeth i'r Awdurdod ac y byddai adroddiad diweddarau'n cael ei

gyflwyno i'r Gweithgor Aelodau maes o law;

- bod derbyn Llythyr Rhybudd Ffurfiol yn arwydd o risg i fywyd, nid yn unig i'r amgylchedd, ond pwysleisiwyd mai risg anuniongyrchol oedd – bod angen gosod sifffon yn Llyn Mair er mwyn gallu reoli lefel y dŵr yn y Llyn petai lif sylweddol.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad, a thynnu Risgiau 13, 14 ac 15 o'r Gofrestr.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

11. **Datganiad o Gyfrifon Drafft 2023-24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- ei fod yn statudol ofynnol bod y Prif Swyddog Cyllid yn arwyddo'r cyfrifon drafft i ddangos ei fod yn gyfforddus gyda chynnwys y datganiad;
- bod y cyfrifon eisoes wedi eu pasio ymlaen at Archwilio Cymru (AC) iddynt ddechrau'r gwaith o'u harchwilio. Wedi i'r archwiliad gael ei gwblhau byddai set o gyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno ynghyd ag adroddiad ISA260 (adroddiad a fyddai'n adrodd barn AC ar y cyfrifon) ac y byddai gofyn i'r Awdurdod eu cymeradwyo'r pryd hynny os yn hapus gyda hynny;
- bod beirniadaeth wedi'i derbyn gan yr Archwiliwr ar gyfrifon blynyddoedd blaenorol, a bod cwmni allanol wedi dod i mewn i gynorthwyo adnabod meysydd lle gellid gwella.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon 2023/24.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

12. **Diweddariad ar y Gyllideb 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

Adroddwyd:

- bod diweddariad o'r gyllideb yn cael ei gyflwyno tair gwaith y flwyddyn;
- nad oedd fawr ddim o newidiadau wedi bod ers diweddariad fis Medi:
 - bod pawb yn gweithio o fewn eu cyllidebau
 - nad oedd disgwyl y byddai unrhyw newid i'r diffyg o fewn y flwyddyn, sef £635K, a byddai'r diffyg hwnnw'n cael ei gyllido gan gronfeydd a oedd eisoes yn bodoli;
 - bod disgwyl y byddai costau rhedeg Plas Tan y Bwlch yn gostwng yn sylweddol eleni i £150K;
 - bod targed meysydd parcio wedi ei wireddu bellach a bod y gwarged yn cael ei neilltuo i'r gronfa asedau;
 - nad oedd unrhyw drosglwyddiad wedi digwydd.

Nodwyd:

- derbyniwyd arian ychwanegol o Lywodraeth Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 23-24 a phenderfynwyd ei roi'n benodol i gyfeirio at yr her ariannol a'r diffyg o fewn cyllidebau'r Awdurdod.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26.

13. *Penderfynwyd: — derbyn yr argymhelliad.*
Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2026/27
Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- bod y gyllideb wedi darparu 3% ar gyfer chwyddiant cyflogau yn 2026-27
- bod cynnydd o 2% i setliad grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 wedi ei ragdybio;
- byddai ailbrisiad diweddar y gronfa bensiwn llywodraeth leol yn fanteisiol iawn i'r Awdurdod y flwyddyn nesaf;
- byddai'r gyllideb ffurfiol yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 4 Chwefror 2026

Argymhellwyd: – nodi'r gyllideb sylfaenol a gynlluniwyd ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellwyd.

Penderfynwyd: — derbyn yr argymhelliad.

14. **Mynd i'r Afael â'r Her Ariannol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod sail yr adroddiad hwn wedi'i thrafod gan yr Aelodau yng Ngweithgor mis Hydref a rhoddwyd trosolwg o'r strategaeth a gaed yn yr adroddiad.

Nodwyd:

- ei fod yn hyderus y gellid cynyddu'r incwm o'r canolfannau ond ei fod yn dibynnu ar gwblhau addasiadau i'r adeiladau, gwella telerau pryniant a chynyddu maint ac ystod y stoc;
- bod cryn ansicrwydd am beth fyddai canlyniadau'r cynnydd yn ffioedd cynllunio ac y gallai arwain at leihad yn nifer y ceisiadau;
- byddai papur ar greu swydd Rheolwr Masnachol yn cael ei gyflwyno i Weithgor Aelodau mis Mawrth 2026;
- bod gan nifer o Barciau Cenedlaethol eraill Reolwr Masnachol eisoes a bod y model yn gweithio'n dda mewn rhai lleoedd;
- bod Argymhelliad g. ("peidio â dileu unrhyw swyddi gwag") yn sôn yn benodol am y swyddi a soniwyd amdanynt ym mharagraff 56 o'r adroddiad.

Argymhellwyd: – I'r Aelodau gefnogi'r egwyddorion canlynol i ffurfio rhan o Strategaeth Ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2026/27:

- a. Cytuno â'r egwyddor o gynyddu tariffau parcio ceir a gweithredu gorfodaeth fwyfwy er mwyn dod â £500,000 ychwanegol y flwyddyn i mewn
- b. Gosod targed o £40K ychwanegol y flwyddyn o incwm manwerthu
- c. Cytuno i gadw ffioedd cynllunio a gyllidebwyr ar y lefelau presennol ond i fonitro'r amserlen ffioedd newydd yn agos dros y 12 mis nesaf.
- d. Archwilio ffynonellau incwm masnachol posibl eraill, gan gynnwys recriwtio Rheolwr Masnachol dros y 12 mis nesaf.
- e. Nodi'r arbedion yn ein cyllideb sylfaenol o £130K oherwydd cyflwr iach y gronfa bensiwn bresennol.
- f. Cadw cyllidebau cyfalaf presennol yr Awdurdod fel rhan allweddol o weithrediad yr Awdurdod – ond parhau i fonitro'r sefyllfa

- g. Peidio â dileu unrhyw swyddi gwag – ond parhau i fonitro'r sefyllfa sy'n ymwneud â setliad cyllidebol Llywodraeth Cymru
- h. Peidio â mynd ar drywydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol - ond parhau i fonitro'r sefyllfa sy'n ymwneud â setliad cyllidebol Llywodraeth Cymru

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

15. **Cynhyrchu Incwm – Adolygu Ffioedd Parcio**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad hwn wedi'i drafod gan yr Aelodau yng Ngweithgor mis Hydref;
- bod y Prif Weithredwr, y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo, Swyddogion Cymunedol a Wardeiniaid Lleol wedi cyfarfod â Chyngor Cymuned Betws-y-coed, Cyngor Cymuned Llanygerw a Chyngor Tref Bala ers y Gweithgor yn Hydref gan eu bod yn cael eu heffeithio gan yr argymhellion yn yr adroddiad o ran gorfodaeth ANPR. Yn dilyn y trafodaethau hynny penderfynwyd estyn yr amser y câi trigolion barcio cyn 8:00 y bore ac ar ôl 17:00 yn yr hwyr yn ddi-dâl o hanner awr i awr;
- bod Cyngor Betws-y-coed wedi codi pryderon ynglŷn â gwersyllfaniau'n parcio dros nos yn y pentref a'i fod yn bwysig bod yr Awdurdod yn agored i'w pryderon, yn osgoi gwrthdaro gyda'r gymuned ac yn cadw cysylltiad agos.

Nodwyd:

- bod trafodaethau gyda Pharciau Cenedlaethol eraill wedi eu cynnal a bod prisiau parcio'n cael eu cymharu'n flynyddol, bod prisiau'r Parc yn cymharu'n ffafriol gyda pharciau eraill;
- bod y cynnydd yn y ffioedd yn ymddangos yn fawr am nad oedd wedi bod yn bosib cynyddu'r ffioedd yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf;
- mai treialu'r system ANPR oedd y bwriad yn gyntaf, bod y cwmni oedd wedi ei ddewis i weithredu'r system eisoes wedi dod â systemau tebyg i ardaloedd lleol, bod modd gofyn am newidiadau i'w wneud yn addas i'r lleoliad, ac fe fyddai'n gwbl ddwyieithog a'r Gymraeg yn cael ei gwirio;
- mai Rhif Cerbyd penodol a fyddai'n cael ei gofrestru ar gyfer trwyddedau blynyddol;
- byddai data'n cael ei gasglu yn ystod y flwyddyn gyntaf ac yn cael ei archwilio am batrymau a gwybodaeth;
- bod pedair awr o arhosiad wedi ei ddewis yn hytrach na thaliadau am bob awr fel nad oedd ymwelwyr yn teimlo pwysau i frysio nôl i'w ceir, a bod pedair awr yn ddigon o amser i'r rhan fwyaf o ymwelwyr;
- pwysigrwydd cyfathrebu'r newidiadau yma mewn modd positif a bod cysylltu wedi bod rhwng yr Awdurdod â'r cymunedau lleol i roi'r cyd-destun a'r rhesymau am y newidiadau;
- nad oedd plwg safonol i feiciau trydan a bod hyn yn rhwystro creu mannau gwefru mewn meysydd parcio;
- nad oedd cael mannau parcio dros nos dynodedig i wersyllfaniau (tebyg i Aires Ffrengig) yn bolisi ar y pryd, ond ei fod yn rhywbeth oedd yn cael ei ystyried wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol;
- bod cwynion wedi eu derbyn gan fusnesau oedd â safleoedd gwersylla swyddogol eu bod wedi gweld lleihad yn eu busnes a chynnydd mewn parcio ac aros dros nos wrth ochr y ffordd ac mewn cilfannau yn hytrach nag ar ei safleoedd, a dylid gofalu na fyddai busnes yn cael ei dynnu oddi wrthynt;

- bod y peiriannau rhoddion yn llwyddiannus ar y cyfan, byddai'r peiriannau'n derbyn taliadau cerdyn yn ogystal ag arian mân ac yn arbed costau gweinyddol i'w gymharu â'r hen flychau rhoddion;
- nad oedd cyfeiriad at faes parcio Benar (Morfa Dyffryn), yn yr adroddiad, bod y maes parcio'n wag ym misoedd yr Haf ond bod ceir yn parcio wrth ochr y ffordd gan rwystro mynediad gwasanaethau argyfwng i'r traeth.

Argymhellwyd: –

- 1 Nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed eisoes o wella rheolaeth ac incwm meysydd parcio.
- 2 Derbyn yr argymhellion i adolygu ffioedd parcio fel yr amlinellir yn 3.2 - 3.8 yn yr adroddiad, gan ychwanegu Maes Parcio Morfa Dyffryn at y meysydd parcio a restrir yn 3.4.
- 3 Derbyn yr argymhellion i adolygu oriau gweithredu'r safleoedd fel y nodir yn 3.9 yn yr adroddiad.
- 4 Derbyn yr argymhellion i dreialu gorfodi gyda thechnoleg ANPR fel y nodir yn 3.10 yn yr adroddiad ac adolygu ar ddiwedd y tymor dilynol a thrafod ymhellach cyn ymestyn i safleoedd eraill.
- 5 Derbyn y bwriad i osod peiriannau derbyn rhoddion ar y safleoedd a nodir yn 3.11 yn yr adroddiad i ddenu cyfraniadau.
- 6 Derbyn yr argymhelliad i gynyddu cyllideb y Gronfa Gymunedol fel yr amlinellir yn 4.2 yn yr adroddiad.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

16. Adroddiad Adran 6

Nododd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir:

- ei diolchgarwch i Dafydd Roberts, Uwch Ecolegydd yr Awdurdod am baratoi'r adroddiad;
- fod adferiad natur yn un o brif heriau ac uchelgeisiau'r Awdurdod a bod yr adroddiad yn dangos gymaint o waith oedd yn digwydd o fewn yr Awdurdod;
- yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod y Prif Weithredwr yn awyddus i godi uchelgais yr Awdurdod yn y maes a bod hyn yn ddibynnol ar gyd-weithio gyda phartneriaid a'r adnoddau oedd ar gael ar gyfer cyflawni'r gwaith;
- ei fod yn adroddiad a fyddai'n dod gerbron yr Awdurdod bob tair blynedd ond bod bwriad i adrodd yn flynyddol ar waith y Bartneriaeth Natur o hyn ymlaen, er mwyn adrodd ar flaenoriaethau'r Awdurdod yn y maes yma.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Adroddwyd:

- ei fod yn waith sylweddol gan dîm gweithgar a'i fod yn crynhoi'r math o waith oedd wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf.

Nodwyd:

- byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ac yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru;
- bod yr adroddiad wedi ei gynhyrchu yn ôl fformat a thempled oedd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru a bod hynny'n clymu'r diwyg ond gellid gwneud cyflwyniad mewn fformat mwy gweledol a haws ei dilyn erbyn blwyddyn nesaf;

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

17. **Gweithredu Argymhellion Archwilio Cymru yn dilyn Asesiad Risg**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod Archwilio Cymru (AC) wedi dechrau Asesiad Sicrwydd a Risg o'r Awdurdod ym mis Ionawr, cafwyd cyfarfod â swyddogion AC ar 7 Mai, a derbyniwyd llythyr gan AC yn dilyn y cyfarfod hwnnw;
- bod dau fater arwyddocaol wedi codi'n dilyn y gwaith yma:
 - bod diffyg trefniadau ar gyfer diogelu oedolion a phlant agored i niwed y gallai'r Awdurdod rhyngweithio â nhw, ac
 - nad oedd hyfforddiant i swyddogion nac Aelodau ar eu cyfrifoldebau diogelu;
- bod yr Awdurdod, yn dilyn yr argymhellion a dderbyniwyd gan AC, wedi cynhyrchu Polisi Diogelwch newydd dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd:

- bod canllawiau symlach na'r polisi cyfan yn cael eu paratoi;
- nad oedd sôn yn y polisi am gyhuddiadau yn erbyn staff; cadarnhawyd bod gan yr Awdurdod bolisi a threfniadau penodol ar hynny eisoes, ac os oedd angen byddai'r polisi yn cael ei addasu i gynnwys cyfeiriad at y drefn a geir yn y polisi hwnnw.

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n:

- a. Nodi cynnwys llythyr AC sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2
- b. Cymeradwyo'r Polisi Diogelu sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3
- c. Nodi y bydd canllawiau a hyfforddiant mwy manwl ar gymhwyso'r Polisi Diogelu yn digwydd erbyn Gwanwyn 2026, a
- d. Nodi bod system ar waith i sicrhau bod yr holl ddogfennau a chanllawiau corfforaethol yn cael eu diweddarau.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

18. **Polisi Urddas yn y Gwaith**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- bod y ddeddf wedi ei diwygio'n ddiweddar i roi fwy o gyfrifoldeb penodol ar yr Awdurdod i egluro i unrhyw drydydd-parti a'u hyfforddi ynglŷn â disgwyliadau'r Awdurdod ganddynt;
- bod diwygio'r ddeddf wedi cynnig cyfle i ddiweddarau'r polisi a'i wneud yn fwy modern.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r polisi Urddas yn y Gwaith, a'i weithredu ar draws yr Awdurdod:

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

19. **Adroddiadau'r Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiadau ar gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Mai, 3 Medi, 15 Hydref a 12 Tachwedd 2025.

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau.

20. **Cofnodion y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Medi 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd nodi'r cofnodion.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- bod Cyn-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi ymddeol a bod yr Awdurdod wedi ceisio llenwi'r swydd wag a phenodi Aelod Annibynnol arall, ond ei fod wedi methu hyd yma; bod y swydd wedi ei hysbysebu unwaith eto a bod hysbysebion wedi eu hanfon at nifer o bapurau bro y tro yma; y gobaith oedd y byddai Aelod newydd yn cael ei benodi yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

21. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Rhoddwyd cyflwyniad byr ar Grŵp Budd-Ddeiliaid Safle Trawsfynydd. Esboniwyd:

- mai pwyllgor rhwng Nuclear Decommissioning Authority (NDA) a Nuclear Restoration Services Limited (NRS - Magnox gynt, oedd yn rhedeg yr orsaf bŵer) a'r gymuned oedd;
- gallai unrhyw un ymuno â'r grŵp;
- bod pryder ar y pryd am fod nifer o staff o'r NDA a'r NRS wedi cael cynnig ymddeoliad cynnar;
- nad oedd unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â'r bont droed ar draws y llyn;
- bod yna bryder fod y *Small Modular Reactor* (SMR) yn mynd i Fôn a dim byd yn cael ei gynnig i Drawsfynydd;
- bod gostwng lefel to'r orsaf yn mynd i ddechrau'n fuan;
- bod gwaith yn mynd yn ei flaen i greu Parc Gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, ond bod pryder ers colli Cwmni Egino.

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 11.06.2025

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
18. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25	Y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad diweddar ar y protocol enwebu Aelodau gan Awdurdodau lleol		PW		



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 10.09.2025

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLN WEITHREDU
13. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2025/26 – 2028/29	Y Prif Weithredwr i gyflwyno ffigyrau ar “Faint llai o arian mae’r Awdurdod wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru yn y deg mlynedd diwethaf?”		PW		

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	4 Chwefror 2026
TEITL	Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol am 2026/27
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	Cymeradwyo'r gyllideb refeniw a chyfalaf 2025/26 a'r ardollau ar awdurdodau cyfansoddol ar sail ffigwr dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod

1. Crynodeb

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno manylion cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2026/27, yn seiliedig ar setliad drafft y Grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2026/27. Disgwylir cadarnhad o'r setliad terfynol ym mis Mawrth 2026, ac felly mae posibilrwydd o newid yn y cyfamser.
- 1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion y lefi a ddosberthir rhwng yr awdurdodau cyfansoddol, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn seiliedig ar y ffigur grant dangosol.
- 1.3 Mae'r cyllidebau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyllideb "sefyllfa sefydlog", sef y lefel o wariant sy'n angenrheidiol i gynnal y gwasanaethau presennol yn 2026/27, heb unrhyw ddatblygiadau ychwanegol.

2. Cyllideb Refeniw 2026/27

- 2.1 Derbyniwyd gwybodaeth am y setliad drafft ym mis Ionawr 2026, a chyhoeddwyd cynnydd o tua 4% yn y cyllid craidd. Mewn termau ariannol, mae hyn yn gynydd o £173,000 yn y cyllid craidd, a fydd hefyd yn arwain at gynydd o £58,000 yn y lefiau a godir ar yr awdurdodau cyfansoddol. Mae hyn yn newyddion cadarnhaol ac yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa gryfach ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nag a ragwelwyd, ond serch hynny bydd diffyg sylfaenol o £139,000 yn parhau.
- 2.2 Yn dilyn cyflwyno Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2026/27 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 10 Rhagfyr 2025, gwnaed nifer o addasiadau, a nodir yn Atodiad 1.

- 2.3 Fel y nodwyd yn yr adroddiad drafft ym mis Rhagfyr, mae nifer o gamau wedi'u gweithredu i leihau diffyg yr Awdurdod, gan gynnwys cynyddu'r incwm o feysydd parcio a chanolfannau gwybodaeth.
- 2.4 Mae darpariaeth o 3% wedi'i gosod ar gyfer cynnydd cyflogau yn 2026/27 (£165,000). Mae cyfraddau chwyddiant wedi sefydlogi o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, gyda'r gyfradd bresennol yn 3.4%, a disgwylir iddynt barhau i ostwng wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.
- 2.5 Yn sgil y setliad drafft ffafriol, cynigir adfer cyllid cyllideb sylfaenol ar gyfer Plas Tan y Bwlch, gan ddisodli'r dibyniaeth dros dro ar gronfeydd wrth gefn yn ystod y cyfnod pontio tra bo ceisiadau grant yn cael eu cyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- 2.6 Gwnaed newidiadau mân pellach i'r ffigurau refeniw ers y rhai a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2025. Ceir manylion yn Atodiad 1.

3. Dadansoddiad o Gyllideb Refeniw 2026/27

- 3.1 Yn seiliedig ar y ffigur grant drafft, mae Atodiadau 2 a 3 yn cynnwys dadansoddiad o gyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2026/27. Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r gyllideb refeniw net yn ôl prif feysydd gwasanaeth, ac mae Atodiad 3 yn ei dadansoddi yn ôl penawdau goddrychol safonol.
- 3.2 Mae Atodiad 4 yn darparu dadansoddiad manylach o'r gyllideb ar lefel adran o fewn pob maes gwasanaeth. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys amcangyfrifon o gostau cyfalaf.

4. Cyllideb Gyfalaf 2026/27

- 4.1 Amcangyfrifir gwariant cyfalaf gros o £2,925,780 wedi'i ariannu o grantiau cyfalaf, ynghyd â chyfraniadau o gyllideb refeniw a chronfeydd yr Awdurdod . (gweler manylion yn Atodiad 5).

Ffynhonnell Cyllid	£
Grant Llywodraeth a chyfraniadau eraill	1,864,850
Grantiau eraill	400,000
Gwelodlin yr Awdurdod a cronfeydd	660,930
Cyfanswm	2,925,780

5. Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn

- 5.1 Ar adeg llunio'r adroddiad, rhagwelir y bydd cyllideb 2026/27 yn cynnwys cyfraniad net o £618,500 o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Disgwylir y bydd rhan sylweddol o'r her ariannol yn cael ei chyflawni yn ystod y flwyddyn, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd y

ffigwr terfynol yn cynyddu ychydig. Ceir crynodeb isod, a manylion llawn yn Atodiadau 6 a 7.

Mae'r cyfraniad o £618,500 o gronfeydd yn cynnwys:

Refeniw £153,000 (atodiad 6.)

Cyfalaf £465,000 (atodiad 7.)

6. Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol

- 6.1 Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) sy'n rhagnodi'r dull gosod ardoll, ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r ardollau cyn gellir eu hawlio gan yr awdurdodau cyfansoddol perthnasol.
- 6.2 Cyfrifir y lefiau fel un rhan o dair o'r Grant Parc Cenedlaethol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru. Rhennir y swm rhwng yr awdurdodau cyfansoddol yn unol â'r "cymarebau perthnasol" a nodir yn y Rheoliadau.
- 6.3 Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad yr ardoll ar sail y ffigwr grant drafft.

	2026/27 (£)	Cyfran (%) Ardoll (£)	
Grant Llywodraeth	4,499,000		
Cyfanswm Ardoll	1,499,600		
Cyfanswm Cyllid	5,998,600		
Cyngor Gwynedd		77.10%	1,156,200
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy		22.90%	343,400
Cyfanswm		100%	1,499,600

- 6.4 Crynodeb o sut y caiff cyllideb gyffredinol 2026/27 o £9,132,100 (gweler atodiadau 2-4) fel a ganlyn:-

Ffynhonnell Cyllid	£
Grant Llywodraeth	4,499,000
Cyfanswm Ardollau	1,499,600
Cyfraniadau Net o Gronfeydd wrth Gefn	618,500
Grantiau yn ystod y flwyddyn (disgwyliedig)	2,376,000
Diffyg	139,000
Cyfanswm	9,132,100

7. ARGYMHELLION

7.1 Cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer 2026/27, fel y'i cyflwynir yn yr atodiadau dilynol.

7.2 Cymeradwyo'r ardollau ar yr awdurdodau bilio, fel nodir yn rhan 6.3 uchod.

Atodiad 1

Disgrifiad	£	£	£
1 Cyllideb sylfaenol 2025/26			8,223,370
2 Newidiadau mewn costau staff			
Darpariaeth ychwanegol ar gyfer cyflogau 26/27	45,000		
Gostyngiad o 3% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwyr	-127,614		
Newidiadau bychain i strwythurau staff	-34,687		
Cyfanswm newidiadau staff		-117,301	
3 Newidiadau mewn gwariant			
Cynnydd yn y gyllideb dillad amddiffynnol	2,200		
Cynnydd yn y gyllideb yswiriant	45,700		
Cynnydd mewn ffioedd archwilio	9,000		
Cynnydd yn y gyllideb lechyd a Diogelwch	10,000		
Grantiau Cymunedol	25,000		
Casglu sbwriel a rheoli gwastraff	10,000		
Meddalwedd TG a thanysgrifiadau	19,000		
Diwedd Prosiect Carneddau	-25,000		
Cyfanswm newidiadau gwariant		95,900	
4 Newidiadau mewn incwm			
Targed incwm cynyddol Canolfannau Gwybodaeth (TICs)	-40,000		
Targed incwm parcio cynyddol	-500,000		
Gostyngiad yn yr incwm rhagweladwy o Blas Tan y Bwlch	55,620		
Incwm Llyn Tegid	-18,000		
Llog a dderbyniwyd	-50,000		
Cyfanswm newidiadau incwm		-552,380	
Cyfanswm newidiadau (staff + gwariant + incwm)		-	573,781
5 Newid i Brosiectau Cyfalaf a ariannir o refferiwr			1,482,550
Cyllideb sylfaenol 2026/27			9,132,139
6 Grant Parc Cenedlaethol a lefi 2026/27		-	5,998,613
7 Cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn			
Cronfa grantiau refferiwr — Llwybrau Lles	-40,000		
Cronfa prosiectau — Pobl Ifanc	-42,500		
Cronfa prosiectau — Eiddo	-50,550		
Cronfa prosiectau — Cyllid	-20,000		
Cronfa Grantiau Cyfalaf — Cadair Idris	-25,000		
Cronfa Rheoli Asedau — Seiffon Llyn Mair	-180,000		
Cronfa Rheoli Asedau — Cwlfert Pont y Wernddu	-250,000		
Cronfa Grantiau Cyfalaf — Tirlun mwyngloddio llechi Gorseddau	-10,000		
Grant — Technegydd Maes	-20,000		
Grant — Gwarchodfeydd Peatlands	-91,800		
Grant — SLSP	-500,000		
Grant — Cyfalaf Cyffredinol	-330,000		
Grant — NPAP	-400,000		
Grant — Ffermio Bro	-709,850		
Grant — Brilliant Basics, Canolfan Wybodaeth Betws-y-Coed	-325,000		
Cyfraniadau net o gronfeydd wrth gefn			-2,994,700
8 Diffyg			138,827

Atodiad 2 / Appendix 2

CRYNODEB O'R GYLLIDEB REFENIW 2026/27 REVENUE BUDGET SUMMARY 2026/27

PRIF FEYSYDD GWASANAETH / KEY SERVICE AREAS

	Cyllideb Net Net Budget 2026/27	
	£	%
<u>Gwasanaeth / Service :</u>		
Cynllunio a Partneriaethau/ Planning & Partnerships	1,389,450	20.0
Rheoli Tir/ Land Management	2,346,425	33.8
Corfforaethol / Corporate	3,016,630	43.4
Balansau, Arian Wrth Gefn a Darpariaethau / Balances, Reserves & Provisions	195,000	2.8
Cyllideb Net Gwasanaethau / Net Services Budget	6,947,505	100.0
Llog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds	-150,000	
Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Expenditure	2,925,680	
Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment	-591,050	
Cyfanswm Cyllideb Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget	9,132,135	
 <u>Daw'r Arian O / Financed by :-</u>		
Cronfeydd wrth gefn / Reserves (prosiectau/projects)	2,994,700	32.8
Cronfeydd wrth gefn / Reserves (diffyg / deficit)	138,825	1.5
 Grant y Parc Cenedlaethol / National Park Grant	4,499,000	49.3
Dyraniad Lefi Rhwng Cynghorau Lleol / Levy Allocation between Constituent Authorities -		
Cyngor Gwynedd Council	1,156,200	12.7
Cyngor Conwy Council	343,410	3.8
	9,132,135	100.0

Atodiad 3 / Appendix 3

CRYNODEB O'R GYLLIDEB REFENIW 2026/27 REVENUE BUDGET SUMMARY 2026/27

LEFEL ODDRYCHOL / SUBJECTIVE ANALYSIS

	Cyllideb Budget 2026/27 £	%
Gweithwyr / Employees	5,816,610	58.6
Tir ag Adeiladau / Premises & Grounds	1,609,825	16.2
Cludiant / Transport	143,030	1.4
Cyflenwadau a Gwasanaethau / Supplies & Services	1,563,440	15.8
Taliadau Cyfalaf / Capital Charges	591,050	6.0
Arian Wrth Gefn a Darpariaethau / Reserves & Provisions	195,000	2.0
Cyllideb Gros Gwasanaethau / Gross Services Budget	9,918,955	100.0
Incwm / Income	-2,971,450	
Cyllideb Net Gwasanaethau / Net Services Budget	6,947,505	
Llog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds	-150,000	
Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Expenditure	2,925,680	
Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment	-591,050	
Cyfanswm Cyllideb Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget	9,132,135	

CYLLIDEB REFENIW 2026/27**REVENUE BUDGET 2026/27**

Costau Gweithwyr a Chostau Rhedeg	Costau Cyfalaf	Cyllideb Gros 2025/26	Gwerthu, Ffioedd ac Incwm Grant	Cyllideb Net 2026/27
Employee Costs & Running Expenses	Capital Charges	Gross Budget 2025/26	Sales Fees & Grant Income	Net Budget 2026/27
£	£	£	£	£

Rheoli Tir

Archeoleg / Archaeology

Treftadaeth Diwylliannol /
Cultural Heritage

Ysgwrn

Cadwraeth ac Amaethyddiaeth /
Conservation and Agriculture
Ffermio Bro

LIFE-Coedwigoedd Celtaidd / LIFE - Celtic Rainforests

Awyr Dywyll / Dark Skies

Mynediad i'r Cyhoedd / Public Access

Wardeiniaid, Gweithwyr Stad a Gwifoddolwyr /
Wardens, Estate Workers and Volunteers

70,650	-	70,650	-	70,650
81,590	-	81,590	-	81,590
126,070	45,250	171,320	-	124,520
568,210	10,580	578,790	-	559,570
155,720	-	155,720	-	-
570,470	-	570,470	-	74,790
61,210	-	61,210	-	61,210
120,520	4,640	125,160	-	123,160
1,196,215	62,220	1,258,435	-	1,250,935
2,950,655	122,690	3,073,345	-	2,346,425

Cynllunio a Partneriaethau / Planning and Partnerships

Rheolaeth Datblygu /Development Control

Poli Cynllunio/ Planning Policy

Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau /

Park Management Plan and Partnerships

Manifesto Ieuenctid / Young People's Manifesto

Llwybrau Llesiant / Well Being Routes

728,060	3,320	731,380	-	206,500	524,880
304,920	-	304,920	-	-	304,920
477,380	-	477,380	-	-	477,380
42,270	-	42,270	-	-	42,270
40,000	-	40,000	-	-	40,000
1,592,630	3,320	1,595,950	-	206,500	1,389,450

Corfforaethol / Corporate

Gweinyddol / Administration

Cyllid / Finance

Technoleg Gwybodaeth / Information Technology

Cyfreithiol / Legal

Adnoddau Dynol/ Human Resources

Cyfiethu / Translation

Pencadlys / Headquarters

Cymorth i Aelodau a'r Awdurdod /
Members & Authority Support

Rheoli Corfforaethol / Corporate Management

Plas Tan Y Bwlch

Eiddo / Property

Cyfleusterau Ymwelwyr / Visitor Facilities

Meysydd Parcio / Car Parks

Llyn Tegid

Costau Gweithwyr a Chostau Rhedeg	Costau Cyfalaf	Cyllideb Gros 2025/26	Gwerthu, Ffioedd ac Incwm Grant	Cyllideb Net 2025/26
Employee Costs & Running Expenses	Capital Charges	Gross Budget 2025/26	Sales Fees & Grant Income	Net Budget 2025/26
£	£	£	£	£

201,330	-	201,330	-	300	201,030
243,650	1,250	244,900	-	-	244,900
387,350	24,980	412,330	-	-	412,330
61,140	-	61,140	-	-	61,140
219,130	-	219,130	-	-	219,130
95,030	1,430	96,460	-	-	96,460
151,330	121,690	273,020	-	9,000	264,020
234,920	-	234,920	-	-	234,920
839,880	-	839,880	-	1,000	838,880
315,620	225,540	541,160	-	123,800	417,360
255,990	-	255,990	-	-	255,990
249,190	67,280	316,470	-	71,160	245,310
558,300	3,090	561,390	-	1,440,020	878,630
49,910	2,030	51,940	-	156,120	104,180

Casglu Ysbwriel / Litter Collection	25,000	4,510	29,510	-	29,510
Cyfathrebu/ Communication	313,360	7,300	320,660	- 4,130	316,530
Canolfannau Gwybodaeth / Information Centres	383,490	5,940	389,430	- 232,500	156,930
Traffic a Thrafnidiaeth / Traffic and Transport	5,000	-	5,000	-	5,000
	4,589,620	465,040	5,054,660	- 2,038,030	3,016,630

Balansau, Arian wrth Gefn a Darpariaethau / Balances, Reserves & Provisions

Darpariaeth Chwyddiant Cyffredinol / General Prices Inflation - Provision	30,000	-	30,000	-	30,000
Darpariaeth Chwyddiant Cyflogau / Inflation Provision	165,000	-	165,000	-	165,000
Payroll	195,000	-	195,000	-	195,000

Cyfanswm Cyllid Gwasanaethau / Total Services Budget	9,327,905	591,050	9,918,955	- 2,971,450	6,947,505
---	------------------	----------------	------------------	--------------------	------------------

Llog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds	-	-	-	- 150,000	150,000
Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Spend	2,925,680	-	2,925,680	-	2,925,680
Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment	-	- 591,050	- 591,050	-	591,050

Cyfanswm Cyllid Cyfrif Refeniw / Revenue Account Budget	12,253,585	-	12,253,585	- 3,121,450	9,132,135
--	-------------------	----------	-------------------	--------------------	------------------

Capital Expenditure 2026/27**Appendix 5**

Description	(£)	(£)
Information Technology	22,340	
Access Projects	10,000	
Warden Vehicles	14,000	
		46,340
Cultural Heritage Schemes	9,490	
		9,490
Llyn Mair - Syphon	180,000	
Pont y Wernddu - culvert	250,000	
		430,000
Acces - Cadair Idris	25,000	
		25,000
Ffermio Bro	709,850	
		709,850
Gorseddau	10,000	
		10,000
Brilliant Basics	465,000	
SLSP Nature and Carbon	500,000	
General Capital - Welsh Gov.	330,000	
		1,295,000
NPAP Grant	400,000	
		400,000
		<u>2,925,680</u>

<u>Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn (Refeniw)</u>			<u>Atodiad 6</u>
<u>Prosiect</u>	<u>Cronfa</u>	<u>(£)</u>	<u>(£)</u>
Maniffesto Ieuenctid	Cronfa Prosiectau	42,500	
Cyllid	Cronfa Prosiectau	20,000	
Swyddog Eiddo	Cronfa Prosiectau	50,500	
			113,500
Llwybrau Llesiant	Cronfa Grantiau Refeniw	40,000	
			40,000
	Cyfanswm		153,500

<u>Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn (Cyfalaf)</u>			<u>Atodiad 7</u>
<u>Prosiect</u>	<u>Cronfa</u>	<u>(£)</u>	<u>(£)</u>
	Cadair Idris Cronfa Grantiau Cyfalaf	25,000	
Gorseddau slate quarrying landscape	Cronfa Grantiau Cyfalaf	10,000	
			35,000
	Seiffon Llyn Mair Cronfa Rheoli Asedau	180,000	
Cwlfert Pont y Wernddu	Cronfa Rheoli Asedau	250,000	
			430,000
	Total		465,000

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	4 Chwefror 2026
TEITL	Strategaeth Cyfalaf 2026/27
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026/27 ac argymhellion y Prif Swyddog Cyllid yn gysylltiedig â'r Cod Darbodus

1. Cefndir

1.1 Trosolwg

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn darparu trosolwg lefel-uchel o'r modd y mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi darparu gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol. Mae hefyd yn nodi'r dull o reoli risgiau cysylltiedig a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

1.2 Cwmpas y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Gwariant Cyfalaf a Chyllido
- Rheoli'r Trysorlys, gan gynnwys statws di-ddyled
- Buddsoddiadau at Ddibenion Gwasanaeth
- Gweithgareddau Masnachol
- Rhwymedigaethau
- Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw
- Gwybodaeth a Sgiliau

2. Gwariant Cyfalaf a Chyllido

2.1 Diffiniad o Wariant Cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â buddsoddi mewn asedau—megis adeiladau neu gerbydau—sy'n cael eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn. I'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae hyn hefyd yn cynnwys gwariant ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a grantiau i gefnogi adnewyddu adeiladau rhestredig. Nid yw asedau sy'n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu ac fe'u cyllidir drwy refeniw yn ystod y flwyddyn.

2.2 Gwariant Cyfalaf Arfaethedig

Yn 2026/27, mae'r Awdurdod yn cynllunio gwariant cyfalaf o £2,926k, fel y nodir yn y tablau swyddogol.

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ `miloedd

	2024/25 Gwir (£'000)	2025/26 Rhagolwg (£'000)	2026/27 Cyllideb (£'000)	2027/28 Cyllideb (£'000)	2028/29 Cyllideb (£'000)
Cronfa Gyffredinol (Gwasanaethau Corfforaethol)	858	36	931	36	36
Cronfa Gyffredinol (Allanol i'r Awdurdod)	1,661	1,408	1,994	1,192	876
Buddsoddiadau Cyfalaf	0	0	0	0	0
CYFANSWM	2,110	1,445	2,926	1,387	1,072

2.3 Prif Brosiectau Cyfalaf 2026/27

Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynnwys £1.899m o brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- £500,000 ar gyfer prosiectau SLSP
- £330,000 o ddyraniad cyfalaf cyffredinol
- £400,000 y flwyddyn ar gyfer y Rhaglen Weithredu Mawn Genedlaethol
- £700,000 ar gyfer Prosiect Cyfalaf Ffermio Bro

Bydd cyfraniadau'r Awdurdod yn cefnogi cynlluniau treftadaeth ddiwylliannol, cerbydau gwarchodwyr, TG a phrosiectau mynediad.

2.4 Llywodraethu

Yn hanesyddol, mae gwariant cyfalaf wedi'i ategu gan gyllidebau heb eu gwario o'r flwyddyn flaenorol. Oherwydd y pwysau ariannol presennol, mae'n annhebygol y bydd adnoddau o'r fath ar gael yn y tair blynedd nesaf.

2.5 Cyllido Gwariant Cyfalaf

Rhaid cyllido gwariant cyfalaf drwy:

- Grantiau a chyfraniadau allanol
- Adnoddau mewnol (refeniw, cronfeydd wrth gefn, derbyniadau cyfalaf)
- Dyled (nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd)

Tabl 2: Arian cyfalaf mewn £ miloedd

	2024/25 Gwir (£'000)	2025/26 cyllideb (£'000)	2026/27 cyllideb (£'000)	2027/28 cyllideb (£'000)	2028/29 cyllideb (£'000)
Adnoddau ein hunain	441	196	626	196	196
Ffynonellau allanol	2,079	1,219	2,300	1,192	876
Dyled	0	0	0	0	0
CYFANSWM	2,110	1,445	2,926	1,776	1,072

Mae'r "ffynonellau allanol" a nodir yn y tabl uchod yn cynrychioli grantiau a chyfraniadau. Mae'r Awdurdod yn "ddi-dyled" ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwriad o fynd i ddyled yn 2026/27.

2.6 Cronfa Dderbyniadau Cyfalaf

Disgwylir i'r gronfa hon sefyll ar £163,790 erbyn 31 Mawrth 2026.

2.7 Gofyniad Cyllido Cyfalaf

Mae'r gofyniad yn parhau'n sero, gan gadarnhau statws di-ddyled yr Awdurdod.

2.8 Rheoli Asedau

Mae cynllun rheoli asedau ar waith ac yn cael ei adolygu i asesu ymrwymadau ariannol y dyfodol.

2.9 Gwaredu Asedau

Bydd unrhyw benderfyniad ar waredu asedau yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod. Cedwir elw o werthu cerbydau a pheiriannau trwm i ariannu eu hadnewyddu.

3. Rheoli'r Trysorlys

3.1 Trosolwg

Mae rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael i fodloni anghenion gwario, heb gynnal balansau gormodol. Caiff arian dros ben ei fuddsoddi nes ei fod ei angen.

3.2 Strategaeth Benthycu

Mae polisi'r Awdurdod yn nodi y dylai benthycu ddigwydd yn unig ar gyfer prosiectau penodol gyda sail busnes gadarn.

3.3 Terfyn Benthycu Fforddiadwy

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod osod cyfyngiad ar fenthycu fforddiadwy (a elwir hefyd yn derfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, gosodir "ffin weithredol" is hefyd fel lefel rhybudd petai'r ddyled yn agosáu at y cyfyngiad / terfyn.

Tabl 3: Dangosydd Darbodus: Cyfyngiad awdurdodedig a ffin weithredol mewn £ miloedd

	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Cyfyngiad awdurdodedig - benthycu	500	500	500	500
Cyfyngiad awdurdodedig - PFI a phrydlesi	0	0	0	0
Cyfyngiad awdurdodedig - cyfanswm dyled allanol	500	500	500	500
Ffin weithredol - benthycu	100	100	100	100
Ffin weithredol - PFI a phrydlesi	0	0	0	0
Ffin weithredol - cyfanswm dyled allanol	100	100	100	100

Ni argymhellir unrhyw ostyngiad i'r 'cyfyngiad benthyca awdurdodedig' a'r 'ffin weithredol', er mwyn cadw hyblygrwydd, yng nghyd-destun ansicrwydd pwysedd chwyddiant a'r sefyllfa ariannol anodd mae'r Awdurdod yn ei gwynebu.

3.4 **Strategaeth Buddsoddi**

Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn codi pan dderbynnir arian cyn iddo gael ei wario. Nid yw buddsoddiadau at ddibenion gwasanaeth neu elw pur yn rhan o'r strategaeth hon.

3.5 **Blaenoriaethau Buddsoddi**

Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros enillion buddsoddi; hynny yw canolbwyntio ar leihau risg, yn hytrach na uchafu'r llog a dderbynnir. Caiff arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byr ei fuddsoddi yn ddiogel, er enghraifft gyda'r Llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau dethol o ansawdd uchel, i leihau'r perygl o golli'r prifswm. Nid yw'r Awdurdod, ar hyn o bryd, yn dal buddsoddiadau am delerau hirach.

3.6 **Sefydliadau Cymeradwy**

Gellir buddsoddi gyda:

- Bank of Scotland
- HSBC
- Santander UK
- Barclays Bank
- Lloyds Bank
- NatWest Bank
- Swyddfa Rheoli Dyled y DU (DMO)

3.7 **Dull Buddsoddi**

Bydd symiau a fuddsoddir yn dibynnu ar y statws credyd presennol a'r lleiafswm balansau gofynnol, tra hefyd yn cynnal balansau digonol i fodloni gofynion llif arian yr Awdurdod. Mae'r prif bwyslais ar ddiogelu arian yr Awdurdod ac i'r perwyl hwn mae swyddogion cyllid yn trefnu bod yna ledaeniad mor ymarferol â phosibl rhwng y sefydliadau cymeradwy (heblaw am Barclays).

3.8 **Graddfeydd Credyd**

Mae'r holl fanciau cymeradwy yn bodloni'r radd credyd ofynnol (Fitch F1 neu'n well).

3.9 **Eithriadau**

Gall Barclays barhau i dderbyn adneuoedd dros nos hyd yn oed os bydd ei radd credyd yn gostwng. Caiff taliadau parcio eu prosesu drwy Allied Irish Bank (F2) ond trosglwyddir yr arian o fewn tri diwrnod gwaith.

3.10 **Mesurau Wrth Gefn**

Os bydd gostyngiad mewn graddfeydd credyd, gall yr Awdurdod gynyddu adneuoedd gyda'r DMO.

3.11 **Buddsoddiadau'r Trysorlys**

Dim ond at ddibenion rheoli'r trysorlys y mae'r Awdurdod yn dal buddsoddiadau. Mae lefelau buddsoddi yn adlewyrchu grantiau "unwaith-yn-unig" a defnydd o gronfeydd wrth gefn.

Tabl 4: Buddsoddiadau rheolaeth Trysorlys mewn £ miloedd

	31.3.2025 Gwir (£'000)	31.3.2026 cyllideb (£'000)	31.3.2027 cyllideb (£'000)	31.3.2028 cyllideb (£'000)	31.3.2029 cyllideb (£'000)
Buddsoddiadau tymor agos	12,310	11,500	10,800	7,600	6,700
Buddsoddiadau tymor hwy	0	0	0	0	0
CYFANSWM	12,310	11,500	10,800	7,600	6,700

3.12 Llywodraethu

Mae penderfyniadau dydd-i-ddydd yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Cyllid a staff y Gwasanaeth Cyllid, gyda chynghor gan y Prif Swyddog Cyllid. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid weithredu yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Chwefror bob blwyddyn. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod.

4. Buddsoddiadau at Ddibenion Gwasanaeth

Nid yw'r Awdurdod yn gwneud buddsoddiadau o'r fath; yn hytrach mae'n darparu cymorth drwy grantiau megis y Gronfa Gomisiynu, y Gronfa Grantiau Bach a'r gyllideb Adeiladau Rhestredig.

5. Gweithgareddau Masnachol

5.1 Buddsoddiadau Eiddo

Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau mewn eiddo at ddibenion elw ariannol yn unig.

5.2 Gweithgareddau Masnachol Gweithredol

Yn 2024/25, cynhyrchodd gweithgareddau masnachol gyfanswm o £1,864k, gan gynnwys:

- Incwm ffioedd parcio: £1,300k
- Ffioedd cynllunio: £150k
- Gwerthiannau Canolfannau Gwybodaeth: £331k
- Rhent: £138k

5.3 Rheoli Risg

Rheolir risgiau csylltiedig a gweithgareddau masnachol drwy Fwrdd Rheoli Yr Ysgwrn, adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, sydd yn sicrhau goruchwyliaeth briodol a lleihau risg.

6. Rhwymedigaethau

6.1 Grantiau a Dderbyniwyd ymlaen Llaw

Mae'r Awdurdod wedi derbyn symiau sylweddol o grantiau refeniw a chyfalaf "unwaith-yn-unig". Mae'r rhan fwyaf wedi'u trosglwyddo i gronfeydd grantiau; mae eraill wedi'u cofnodi fel credydwyd.

6.2 Adolygu Cronfeydd wrth Gefn

Caiff cronfeydd wrth gefn eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn briodol ac yn unol a'r risgiau ariannol a'r gofynion gweithredol.

6.3 Llywodraethu

Adroddir ar sefyllfa'r gronfa bensiwn yn flynyddol i'r aelodau fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon Blynnyddol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r sefyllfa o ran defnyddio grantiau a chynnydd yn erbyn proffil fel rhan o'r broses fonitro cyllideb sy'n bwydo i mewn i adroddiadau i'r aelodau bob mis Medi, Rhagfyr a Mawrth, ac adroddiad alldro'r Awdurdod ym mis Mehefin.

7. Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw

7.1 Taliadau Llog

Gan fod yr Awdurdod yn ddi-ddyled, nid oes taliadau llog yn effeithio ar y gyllideb refeniw.

7.2 Cynaliadwyedd

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y rhaglen gyfalaf yn gall, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

8. Gwybodaeth a Sgiliau

8.1 Arbenigedd Mewnol

Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff proffesiynol cymwysedig ac â phrofiad i wneud penderfyniadau ar wariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi.

8.2 Cynghorwyr Allanol

Gellir defnyddio arbenigwyr allanol pan fo angen. Ar hyn o bryd, mae gweithrediadau rheoli'r trysorlys yn syml ac nid oes angen cymorth allanol heblaw ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid. Mae adroddiad y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

9 Argymhellion

9.1 Noder nad oes bwriad i fenthycu arian at ddibenion cyfalaf, ond mae'r cyfyngiadau isod yn cael eu hargymell ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn bydd argyfwng neu fod angen gwariant ar fyr rybudd.

9.2 Cymeradwyo dim newid yn:

- (i) y Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig o £500,000 ar gyfer 2026/27, a Ffin Weithredol o £100,000, a
- (ii) dim cyfyngiad ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.

9.3 Mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a 7.1).

9.4 Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.5-3.14 yr adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.

CYFARFOD	Awdurdod
DYDDIAD	4 Chwefror 2026
TEITL	Cynllun Grant CANI (Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig)
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cadwraeth Coed ac Amaeth
PWRPAS	Derbyn cymeradwyaeth Aelodau i dderbyn 2 gynnig grant sylweddol

1. CEFNDIR

Mae'r adran Cadwraeth Coed ac Amaeth (CCA) wedi gwneud cais am ddau brosiect gwahanol o gyllid CANI (Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig).

- i. Y goeden iawn yn y lle iawn (£999K),
- ii. Ffermio Adfywiol (FFA) (£848K).

Roedd disgwyl penderfyniad ac amseriad cychwyn y rhain yn haf 2025 ond bu oedi sylweddol ar ran Llywodraeth Cymru.

I gael cynnig yr arian yma mae'r prosiectau wedi pasio paneli asesu, a chwrdd â nifer o ofynion ac amcanion cenedlaethol a rhanbarthol mewn ffenestr gystadleuol iawn.

2. BWRIAD

Prosiectau rheolaeth tir wedi eu seilio ar raglen waith cyfalaf yw'r ddau brosiect.

Y goeden iawn yn y lle iawn:

Prosiect wedi ei seilio ar ddata a gwybodaeth wedi'i chasglu gan yr adran dros flynyddoedd o weithredu cynlluniau eraill yn ogystal â gwaith ymchwil ar gyfer datblygiad y Strategaeth Goed a Choetiroedd yn Eryri. Mae'r prosiect yma'n edrych i gywiro problemau o goed amhriodol mewn mannau amhriodol, ail gynllunio ac ail leoli plannu. Bydd yn cyfrannu at nifer o elfennau o Gynllun Rheoli Eryri, Strategaeth Goed Eryri, amcanion 30x30 a thargedau plannu cenedlaethol.

Ffermio Adfywiol:

Prosiect fwy arloesol gan dreialu a dangos dull gwahanol o amaethu; dull sydd yn llai dwys o ran mewnbynnau, ac yn fwy cynaliadwy a darbodus o adnoddau naturiol; gallai hefyd hyrwyddo arbediad natur a lleihau allyriadau carbon o amaeth.

3. GOBLYGIADAU

Y bwriad yw cyflogi staff i wireddu'r ddau brosiect. Bydd y rhain wedi eu cyllido 100% ar raddfa wedi ei gosod gan Lywodraeth Cymru.

Y goeden iawn yn y lle iawn:

Bydd swyddi Arweinydd Prosiect (1), Swyddog Coed a Choedlanau (1), Swyddog Gweinyddol (0.6)

Swyddog Clwstwr (0.2 trwy RSPB Cymru grant ar raddfa Llywodraeth Cymru)

Ffermio Adfywiol:

Swyddog Prosiect (1), Swyddog Gweinyddol (0.4)

Mae dyddiadau cwblhau o Fedi 2028 wedi eu rhoi gan Lywodraeth Cymru, ond bydd swyddogion yn pwyso ar y Llywodraeth i ymestyn hyn i ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn cael gaeaf cyfan ychwanegol i wireddu'r prosiect. Oherwydd hyn bydd y cytundebau cyflogaeth yn dair blynedd o hyd, ac mae'n bosib y bydd angen gwarantu cost diswyddo i mewn i gost diweddau'r prosiect.

Mae costau recriwtio wedi eu cynnwys yn y cais.

Bydd y cyllid yn debygol o fod wedi proffilio'n eithaf cyfartal ar draws oes y prosiect a bydd yn cael ei hawlio ddwywaith y flwyddyn (mae modd gwneud yn fisol neu chwarterol pe dymunir). Bydd modd cael cyllideb ymlaen llaw, ond yn gyffredinol ôl-hawlio fydd y patrwm.

Bydd y prosiect coed yn cael ei goruchwyllo gan y Pennaeth Adran, ac FFA yn cael ei goruchwyllo gan Dion Roberts a'r Pennaeth Adran.

4. GWYBODAETH BERTHNASOL BELLACH

Mae costau TG, cyfarpar diogelu personol, ffôn a recriwtio wedi eu hadeiladu i mewn i'r cais ac mae gan linellau refeniw ychydig o hyblygrwydd i gwrdd â chostau annisgwyl.

Risgiau

Mae asesiad risg llawn wedi ei wneud fel rhan o'r cais a chymau lliniaru wedi eu hadnabod. Un o'r prif risgiau yw methu recriwtio i'r swyddi a'r broblem fod llwyth gwaith swyddogion presennol yr adran yn sylweddol eisoes a dim capasiti i wireddu'r cynlluniau.

Risg arall yw bod angen gweithredu'r cynlluniau trwy raglen Taliadau Gwledig Cymru (TGC) sydd yn strwythur anhyblyg ac anodd iawn ymdrin â hi, a pherygl o oediadau mewn taliadau.

5. ARGYMHELLIAD

I dderbyn y cynnig o'r ddau brosiect OND i fod yn wyliadwrus o system hawlio TGC.



COFNODION
PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 26 TACHWEDD 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Bethan Hughes, Nia Murray, Gareth Hughes, Awel Gruffydd, Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Luned Fôn Jones (Archwilio Mewnol)
Sara Leahy (Archwilio Cymru)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Louise Hughes, Einir Wyn Williams, Ifor Glyn Lloyd, a Salamatu Fada.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Taflen Weithredu

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Argymhellwyd: –

- bod *Eitem 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru* (PacA 12.07.23) i barhau ar y daflen weithredu, ond byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno diweddariad ar yr eitem

fel adroddiad ar wahân wrth aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru;

- bod *Eitem 8. Arallgyfeirio Incwm* (PacA 29.11.23) i barhau ar y daflen weithredu, ond byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno diweddariad ar yr eitem fel adroddiad ar wahân wrth aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru;
- bod yr eitemau canlynol o bwyllgor PacA 09.07.25 i'w dileu o'r daflen weithredu am eu bod wedi eu cwblhau:
 1. Eitem 7. Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol
 2. Eitem 8. Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol
 3. Eitem 14. Datganiad Polisi Tâl 2025-26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2024-25
 4. Eitem 15. Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad

5. **Hybu Mynediad i Barc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad gan Archwilio Cymru**

Cyflwynwyd adroddiad gan Sara Leahy, Archwilio Cymru (AC).

Adroddwyd:

- bod deddfwriaeth yn gosod gofynion ar yr Awdurdod i hybu cyfleoedd i gymunedau i annog cydraddoldeb ac i annog ystod eang o bobl i ymweld â'r Parc;
- bod y briff prosiect gwreiddiol wedi ei gyhoeddi yn Hydref 2023, y gwaith maes ei wneud yn ystod Hydref 2024, yr adroddiad drafft ei anfon yn Ionawr 2025 a'r adroddiad terfynol yng Ngorffennaf. Ymddiheurwyd am yr amser oedd wedi bod ers dechrau'r gwaith ac esboniwyd eu bod wedi cael trafferthion staffio;
- bod AC wedi canfod "fod yr Awdurdod yn colli cyfleoedd i gynllunio'n strategol ar gyfer mynediad gwell i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol";
- yr argymhellion i wella a chryfhau'r gwaith roedd yr Awdurdod yn ei wneud i hybu mynediad, gan gynnwys:
 - cryfhau sylfaen tystiolaeth yr Awdurdod gyda'r nod o ddeall pwy oedd, a phwy nad oedd, yn dod i'r Parc;
 - mapio'r holl bartneriaid gallai weithio gyda'r Parc i hybu mynediad;
 - eglurdeb pellach am y gost o wireddu gweledigaeth yr Awdurdod;
 - monitro a gwerthuso a oedd y gwaith yma'n mynd i galon yr hyn yr oedd yr Awdurdod yn dymuno i'r prosiectau yma gyflawni.
- bod yr Awdurdod wedi derbyn pob un o'r argymhellion a rhoi gwybodaeth bellach am y camau gweithredu ac amseru'r camau hynny, a bod y wybodaeth honno i'w weld yn briodol ac yn dderbyniol gan AC.

Nodwyd:

- ei fod yn anodd iawn gwybod pwy oedd yn cael eu methu;
bod Strategaeth Cydraddoldeb yr Awdurdod, *Cynllun Eryri* a'r gweithdy oedd i'w gynnal yn y flwyddyn newydd i gyd yn cyd-blethu â hybu mynediad, ac y byddai hybu mynediad yn cael y sylw haeddiannol wrth ddatblygu a gweithredu'r pethau yma.

Argymhellwyd: – ystyried a chymeradwyo'r ymateb drafft.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

6. Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- mai hwn oedd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024-25 ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod;

Nodwyd:

- ymhellach i'r polisi cam-drin domestig oedd wedi ei fabwysiadu awgrymwyd y gellid edrych i mewn i'r prosiect Rhuban Gwyn a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched yn y cartref;
- y byddai'r canlynol bellach yn cael eu nodi'n ogystal â'r ffigyrau presennol:
 - faint o swyddi a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn, a
 - faint o bobl a gafodd eu gwahodd i gyfweiliad;

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn dilyn cyflwyno Cynllun Archwilio blynyddol ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 9 Gorffennaf 2025;
- bod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i ail-ymweld, trafod a chytuno'r cynllun gwaith;
- bod dau beth yn benodol wedi eu hamlygu yn dilyn trafodaethau am Broffil Risg yr Awdurdod ymysg aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth, a chynigiwyd y risgiau isod i'w plethu i waith Archwilio Mewnol, sef:
 - Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod
 - Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch;
- bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg i'w newid i adlewyrchu unrhyw fater a ddeuai i'r golwg neu newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod;
- nad oedd unrhyw oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

Nodwyd:

- bod cael rhywun allanol i archwilio'r ochr ariannol o'r hyn a oedd yn digwydd ym Mhlas Tan y Bwlch i'w groesawu.

Argymhellwyd: – ystyried y Cynllun Archwilio Addasedig ar gyfer cyfnod cyfrifo 2025/26 a derbyn y cynllun.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. Iechyd a Diogelwch: Adroddiad Blynyddol 2024-25

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch.

Adroddwyd:

- mai prwpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o reolaeth iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Nodwyd:

- byddai'n fuddiol nodi rhagor o ddamweiniau a fu bron a digwydd;
- mewn ymateb i sylw fod un tabl yn yr adroddiad yn dangos i Blas Tan y Bwlch nodi 7 digwyddiad yn ystod y flwyddyn – sef yr un nifer ag allan yn y maes – a bod hyn yn annisgwyl, eglurwyd mai nodi digwyddiadau oedd y tabl, ac nid damweiniau na damweiniau a fu bron a digwydd, a'u bod yn cynnwys digwyddiadau fel larymau tân yn canu;
- mewn ymateb i sylw fod ffigyrau'r diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd materion iechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2022 a 2023, bod y ffigyrau wedi cynyddu'n gyffredinol ar draws gwlad yn dilyn cyfnod Covid, a hefyd bod pob digwyddiad yn cael mwy o sylw ac yn cael ei recordio'n fwy manwl;
- bod yr Awdurdod wedi lansio system "Pwls" oedd yn galluogi aelod o staff gofnodi mewn modd cwbl anhysbys sut roeddynt yn teimlo ar y pryd hwnnw;
- byddai modd cymharu'r ffigyrau blyneddol o'r flwyddyn nesaf.

Argymhellwyd:

1. nodi'r perfformiad cryf parhaus ym maes iechyd, diogelwch a lles;
2. cefnogi'r camau gwelliant canlynol
 - i. Datblygu fframwaith archwilio fewnol
 - ii. Gwella defnydd o systemau data absenoldeb
 - iii. Gweithredu canfyddiadau Arolwg yr Offeryn Dangosydd Straen, yn enwedig o ran llwyth gwaith a chyfathrebu
 - iv. Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a chefnogaeth lles staff.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2025 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod;
- bod y gwaith ar Amcan AC 1.5 [Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri] wedi ei ohirio oherwydd absenoldeb, a bod Amcan AC 1.10 [Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod sy'n weithredol ar gyfer 2026-203] wedi'i farcio'n goch gyda llithriad posibl oherwydd pwysau gwaith a'r bwriad i'w gyflawni mewn ffordd arall.

Nodwyd:

- y gellid nodi faint o oleuadau yn yr adroddiad oedd yn wyrdd, yn felyn ac yn goch, a thynnu sylw at unrhyw newidiadau ynddo, yn y blaenadroddiad.

Argymhellwyd: – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Gorfforaethol

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru ar osod Amcanion Llesiant (Cyhoeddwyd Medi 2025)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod Archwilio Cymru (AC) wedi cwblhau asesiad o'r graddau yr oedd yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant – ynghyd â sut y gellid gwella hyn yn y dyfodol;
- bod angen eu hadolygu, ond bod yr Awdurdod wedi penderfynu oedi adolygu'r Amcanion Llesiant er mwyn eu hintegreiddio gyda *Chynllun Eryri*;
- bod AC yn fodlon ar y cyfan fod yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymhwyso ei Amcanion Llesiant;
- bod AC wedi gwneud 2 argymhelliad:
 - cryfhau trefniadau ar gyfer asesu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn amcanion llesiant, a
 - sicrhau fod yr Awdurdod yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i sicrhau bod yr amcanion yn parhau i fod yn briodol;
 - ei fod yn hyderus y byddai'r Awdurdod yn gallu cyrraedd gofynion yr argymhellion.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r ymateb yn Atodiad 2 fel ymateb ffurfiol yr Awdurdod i adroddiad ac argymhellion Archwilio Cymru

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

11. **Targedau Monitro Perfformiad Llywodraeth Cymru Ebrill – Medi 2025**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno fframwaith monitro perfformiad gwaith yr Awdurdod yn sgil eu Llythyr Grant Strategol a'i fod fel ffon mesur ar sut oedd cyrraedd gofynion y Llywodraeth yn y Llythyr;
bod y Llywodraeth wedi ymgynghori gyda'r Awdurdod ar y fframwaith cyn ei fabwysiadu;
- bod y fframwaith yn cael ei gyflwyno'n flynyddol ac mai'r adroddiad canol y tymor oedd hwn;
- na chafwyd llawer o amser i baratoi'r adroddiad, ac mai naratif yn hytrach na ffigyrau oedd llawer ohono ar hyn o bryd ond byddai hyn yn newid wrth i'r data a'r ystadegau gynyddu.

Nodwyd:

- bod y ffigyrau mawn wedi gostwng oherwydd newidiadau yn y ffordd yr oeddynt yn cael eu mesur.

Argymhellwyd: –

1. cymeradwyo ymateb canol blwyddyn gychwynnol yr Awdurdod i dargedau rheoli perfformiad newydd Llywodraeth Cymru;
2. nodi y bydd asesiad manwl pellach yn dilyn ym mis Gorffennaf 2026.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

12. **Cyllid Grant Tair Blynedd Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) 2022-25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- mai rhaglen oedd hon yr oedd y Llywodraeth yn gweithredu ar y cyd gyda'r 8 Tirwedd Ddynodedig;
- ei fod yn grynodedig o'r hyn roedd yr Awdurdod wedi ei wneud yn ystod 2022-25 a throsolwg o'r gwariant;
- bod ffigwr anghywir wedi ei nodi yn y rhaglen, a bod Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd wedi darparu mwy nag **£11 miliwn** o grant cyfalaf i Dirweddau Dynodedig Cymru, yn hytrach na'r £1.1 miliwn a nodwyd.

Argymhellwyd: – nodi'r amrywiol brosiectau sydd wedi'u cwblhau o dan gyllid TCLIC rhwng 2022-25, a darparu unrhyw adborth os o gwbl

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

13. **Datganiad Polisi Cyflog 2024/25 ac Adroddiad Blyneddol Polisi Cyflog ar gyfer 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- mai ailgyflwyniad oedd yr adroddiad hwn, gan i'r adroddiad a gyflwynwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau fis Gorffennaf gynnwys ffigyrau cyflogau anghywir;
- bod dyfarniad cyflog pellach wedi ei wneud ers mis Gorffennaf, ac a dalwyd ym mis Awst, ac y byddai'r ffigyrau hynny'n cael eu hadrodd yng nghyfarfod fis Gorffennaf nesaf.

Argymhellwyd:

1. cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25;
2. cymeradwyo'r Adroddiad Blyneddol ar Bolisi Cyflogau ar gyfer 2023/24.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

14. **Adroddiad Blyneddol y Canolfannau Croeso**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy.

Adroddwyd:

- bod canolfannau Beddgelert ac Aberdyfi wedi bod yn eithaf statig;
- bod canolfan Betws-y-coed wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ond bod trosiant wedi gostwng ychydig;
- mai canolfan Pen-y-pass a welodd y newid mwyaf a bod cynlluniau ar y gweill am y ganolfan ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhellwyd: – trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau y dylid eu cymryd wrth edrych ar 2024-2025.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55



CYD-WEITHGOR LLEOL
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Gwener 28 Tachwedd 2025
COFNODION

PRESENNOL:

Cynrychiolwyr Cyflogwyr

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Einir Wyn Williams;

Cynrychiolwyr Gweithwyr

Aled Lloyd (Unsain);

Yn bresennol

Jon Cawley, Iwan Jones, Nia Murray, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ethol Cadeirydd**

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Cyd-weithgor Lleol ers Cyfarfod Cyffredinol yr Awdurdod fod yn rhaid ethol Cadeirydd i'r cyd-weithgor. Nododd mai'r drefn arferol oedd bod y gadeiryddiaeth yn para am flwyddyn, a'i bod yn symud rhwng yr Aelodau a'r undebau o flwyddyn i flwyddyn. Nododd mai aelod o'r Undebau oedd yn cadeirio llynedd a dylid felly ethol y Cadeirydd ar gyfer eleni o blith yr Aelodau.

Cynigiwyd: – ethol y Cynghorydd Einir Wyn Williams yn gadeirydd.

Penderfynwyd: — derbyn y cynnig, **a chafodd Einir Wyn Williams ei hethol yn Gadeirydd y Cyd-weithgor Lleol.**

2. **Ymddiheuriadau**

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Celia Kelly (GMB), Colin Williams (Unsain).

3. **Datgan Budd**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

4. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y Cyd-weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2025 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

5. **Cyllideb yr Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod cyflwyniad eisoes wedi ei roi i'r Gweithgor Aelodau ac i'r staff, ac y byddai papur ffurfiol ar y sefyllfa'n dod gerbron cyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr, ac mai dyna'r rheswm mai cyflwyniad llafar oedd yn cael ei gyflwyno;
- bod y sefyllfa ariannol yn ddifrifol, ond nad oedd yr Awdurdod yn eithriad yn hyn o beth gan fod llawer o sefydliadau cyhoeddus yn wynebu'r un heriau;
- nad oedd Plas Tan y Bwlch yn y waelodlin a'i fod yn anodd rhoi ffigwr ar gostau'r Plas;
- mai cynyddu incwm oedd y brif strategaeth, drwy:
 - gynyddu ffioedd meysydd parcio a defnyddio ANPR (disgwylid y gellid ychwanegu incwm o £0.5 miliwn y flwyddyn);
 - fanwerthu, yn benodol yng nghanolfannau Betws-y-coed a Phen-y-pass (£40K ychwanegol);
- bod perfformiad y gronfa bensiw wedi bod yn dda a bod hyn wedi arwain at arbediad o £123,000;
- bod gwneud toriadau gwerth 10% o'r cyfalaf wedi ei ystyried, ond mai'r teimlad oedd ei fod yn rhy gynnar i wneud hynny;
- bod torri nifer y staff wedi ei wrthod;
- bod llawer yn amodol ar faint byddai Llywodraeth Cymru yn ei roi.

Nodwyd:

- byddai ffioedd cynllunio yn cynyddu'n fuan, ond ei fod yn anodd rhagweld beth fyddai effaith hyn ac nad oedd wedi ei gynnwys yn y strategaeth am y rheswm hynny.

6. **Adroddiad Adnoddau Dynol APCE 2024-25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- ar bolisiâu a threfniadau gweithio a gyflwynwyd yn ddiweddar, gan gynnwys:
 - Polisi Fflecsi Hynod Hyblyg
 - Polisi Cam-drin Domestig
 - Gwerthoedd Craidd APCE yr Awdurdod
 - Holiadur Adborth 360 – 'Myfyrio i Dyfu'
 - Polisi Addasiadau i'r Gweithle a Phasbort
 - Polisi Sabothol
 - Polisi Gweithio Hyblyg
- ar recriwtio a chadw staff;
- ar fentrau diweddar a gyflwynwyd i gefnogi llesiant staff, gan gynnwys:
 - Pecynnau Mislif am ddim ym mhob toiled yr Awdurdod
 - Parcio am ddim i staff yn ystod amser hamdden
 - Wal Ddiolchgarwch
 - Siart Gwirio Lliw Wrin
 - Pwls, sef offeryn lles digidol a ddatblygwyd ar y cyd gan y tîm Adnoddau Dynol a TG ac a oedd wedi'i gynllunio i helpu staff i wirio eu lles emosiynol.
- ar gysylltiadau diwydiannol a chydweithio gydag Undebau;
- ar ddatblygu a hyfforddiant Staff;

- ar ddata ac ystadegau AD Allweddol;
- ar flaenoriaethau strategol a ffocws ar y dyfodol;

Nodwyd:

- bod yr adborth i Pwls wedi bod yn gadarnhaol, gydag atebion gonest yn cael eu cyflwyno;
- bod Pwls yn gwbl anhysbys ar y pryd, ond ei fod yn fwriad galluogi medru adnabod defnyddwyr fesul adran er mwyn gallu ymateb petai materion yn codi mewn adrannau penodol neu ar adegau penodol:
 - byddai'r syniad yn mynd gerbron y Fforwm Staff a'r undebau cyn iddo gael ei weithredu;
 - ei fod yn anodd ond yn holl-bwysig cael y cydbwysedd rhwng cael gwybodaeth ddefnyddiol a gwarchod preifatrwydd yn gywir;
 - gellid adrodd yn ôl ar unrhyw dueddiadau a welid trwy Pwls i Gyfarfod Staff.
- bod 32 o weithwyr wedi gadael yr Awdurdod yn ystod y 12 mis blaenorol, ond bod llawer ohonynt yn weithwyr tymhorol;
- nad oedd yr adroddiad wedi cynnwys y nifer o bobl a gyflogwyd o'r newydd gan yr Awdurdod, ac addawyd y byddai'r ffigwr yn cael ei gyflwyno'r tro nesaf;
- bod tua 30 o staff wedi bod i'r Plas yn ddiweddar i wirfoddoli am y diwrnod; cafwyd diwrnod da a theimlwyd bod morâl y staff yn gyffredinol yn uchel.

Argymhellwyd: – bod y Cyd-weithgor Lleol yn derbyn yr Adroddiad

Penderfynwyd: — **cymeradwyo'r** argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:45